BWLETIN GWYBODAETH

Plant a Phobl Ifanc

Mawrth 2009

CYFLE I FUDIAFDAU GWIRFODDOL LOGI OFFER CYFRIFIADUROL

Yn dilyn cymeradwyaeth y Cynulliad yn Medi 2008, llwyddodd Mantell Gwynedd, drwy gais wedi ei gydlynnu gan y Gwasanaeth Ieuenctid statudol yng Ngwynedd, i ddiogelu swm o arian grant cyfalaf gwasanaethau ieuenctid sy'n cael ei gynnig er mwyn gwella mynediad at wasanaethau a phwrcasu darpariaethau symudol fydd yn gwella cyflwyniad y gwasanaethau ieuenctid a chyswllt gyda phobl ifanc. Pwrpas ein cais oedd sicrhau arian i brynnu amrywiaeth o offer cyfrifiadurol fydd ar gael i'w llogi allan i fudiadau gwirfoddol y sir ar gyfer eu defnyddio hefo pobl ifanc i gynnal gweithgareddau e.e. gweithdai photograffeg, hyfforddiant, grwpiau ffocws, cystadlaethau ayb.

Ymysg y stoc i'w llogi mae: gliniaduron, argraffwyr wi-fi (amlbwrpas), un taflunydd cyfrifiadurol, camerau fideo a chamerau digidol! Mae'r gliniaduron yn cynnwys meddalwedd fel 'Adobe Photoshop Elements' a 'Microsoft Publisher'.

Y bwriad fydd ceisio cychwyn y gwasanaeth llogi ddechrau Ebrill 2009. Os hoffech dderbyn mwy o wybodaeth am hyn, cysylltwch â mi yn swyddfa Mantell Gwynedd yng Nghaernarfon. Gweler y manylion cyswllt ar ddiwedd y bwletin yma.

FFORWM YMGYNGHOROL ELUSENNAU BBC CYMRU WALES: YN ANGEN - CADEIRYDD AC AELODAU I'R FFORWM

BBC Cymru Wales

Mae Fforwm Ymgynghorol Elusennau BBC Cymru Wales yn cynnwys arbenigwyr annibynnol o du allan i'r BBC gyda phrofiad helaeth o'r sector gwirfoddol yng Nghymru sy'n cynghori ac yn cefnogi Rheolwyr BBC Cymru Wales.

A oes gennych chi gefndir ym maes gweithredu cymunedol neu ym maes elusennau? Neu efallai fod gennych arbenigedd mewn materion sy'n effeithio ar blant neu bobl ifanc a fydd o help wrth ddosbarthu grantiau BBC Plant Mewn Angen yng Nghymru?:

Mae aelodaeth o'r Fforwm yn galw am ymrwymiad o tua 18 diwrnod y flwyddyn – ychydig yn fwy i'r Cadeirydd. Mae aelodaeth ar sail gwirfoddol ond ad-delir unrhyw dreuliau. Gwahoddir ceisiadau ar gyfer nifer o aelodau'r Fforwm yn ogystal ag unigolyn arbennig a all gymryd rôl fel Cadeirydd. Dylid derbyn ceisiadau erbyn 16eg Ebrill 2009.

Am ffurflen gais a disgrifiad swydd, anfonwch amlen fawr wedi ei hunangyfeirio gyda stamp arni at: Swyddfa Elusennau BBC Cymru Wales, Ystafell M1010, Y Ganolfan Ddarlledu, Llandaf, Caerdydd CF5 2YQ. Ffôn-testun 029 2032 2094,

e-bost elusennau@bbc.co.uk neu gweler www.bbc.co.uk/elusennau

CYNHADLEDD FLYNYDDOL 'CYNNYDD' - EBRILL 2009

Mae Cynnydd, Fforwm Ymarferwyr Cyfiawnder Ieuenctid Cymru yn cynnal eu Cynhadledd Flynyddol, dydd Mercher y 1af a dydd Iau yr 2il o Ebrill yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod, Powys.

Bydd nifer o siaradwyr gwadd yn bresenol yn cynnawys: John Drew, Prif Weithredwr, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid; Dr Barry Morgan, Archesgob Cymru; Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru a Barbara Wilding, Prif Gwnstabl, Heddlu De Cymru.

Bydd cyfle hefyd i gynrychiolwyr fynychu amrywiaeth o weithdai yn gysylltiedig â ADHD (Attention Deficit Hyperactivity Disorder); Cydraddoldeb; Camddefnyddio Sylweddau a Diogelu Plant.

Mae'r Gynhadledd wedi cael ei hanelu at weithwyr yn y maes Cyfiawnder Ieuenctid yn bennaf.

Cost: £290 yn cynnwys swper a llety ar y 1af Ebrill ynghyd a chostau lluniaeth a phecynau Cynhadledd ayb. Cofiwch holi am unrhyw delerau canslo!

Er bod y dyddiad cau ar gyfer cofrestru wedi bod ers y 16eg o Fawrth, efallai bod cyfle o hyd i fachu lle yn y Gynhadledd, felly cysylltwch â Caroline Gittins, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Abertawe, Canolfan Plant Llwyncelyn, Llwyncelyn, Ffordd Cockett, Cockett, Abertawe SA2 0FJ, mor fuan â phosib!

Ffôn: 01792 522800 Ffacs: 01792 522805

DIGWYDDIADAU 'PLANT YNG NGHYMRU'

GWEITHIO GYDA THADAU

Dydd Iau 26 & Dydd Gwener 27 Mawrth 2009, 9.30am - 4.00pm - Gwesty Holt Lodge, Wrecsam

Cynigir y cwrs deuddydd hwn i gychwyn y broses o ganfod datrysiadau a ffyrdd o weithio gyda thadau. Lluniwyd y cwrs gan dadau a gweithwyr profiadol yn y meysydd gofal iechyd. Mae'n annog trafodaeth a bydd yn canolbwyntio ar ffyrdd o ymgysylltu â thadau, sydd o fudd uniongyrchol i'w plant, eu partneriaid ac i gymdeithas yn gyffredinol.

Cost: Aelodau: £190; Di-Aelod: £230

PAM CYNNAL GRŴP?

Dydd Mawrth, 31 Mawrth 2009, 9.30am - 4.30pm - Plant yng Nghymru, Plas Windsor, Caerdydd

Y mae'r cwrs undydd hwn yn ystyried y materion sylfaenol y mae angen rhoi sylw iddynt wrth gynnig gwaith grŵp i gleientiaid. Fe wna hefyd gynorthwyo cyfranogwyr i ganfod cryfderau a gwendidau yn eu harferion ac i ystyried llwybrau yn y dyfodol ar gyfer hyfforddiant. Y mae'r cwrs yn addas i bobl sy'n gweithio gydag unrhyw fath o grŵp targed.

Cost: Aelodau: £115; Di-Aelod: £140

CEFNOGI CYNNAR: GWNEUD IDDO DDIGWYDD YNG NGHYMRU

Dydd Gwener, 12 Mehefin 2009 - Gwesty Holt Lodge, Wrecsam

Bydd Cefnogi Cynnar yn cael ei roi ar waith dros y tair blynedd nesaf a diben y digwyddiadau rhagarweiniol hyn yw codi ymwybyddiaeth ymysg ymarferwyr, rhieni a gofalwyr i: gyflwyno canlyniadau gwell ar gyfer plant ifanc anabl; cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ac ystyriaethau Gweithredu'r Hawliau ar gyfer plant ifanc anabl; canolbwyntio'n fwy ar y teulu, gan fonitro cynnydd plant a gweithio mewn partneriaeth.

Mae'r digwyddiad yn ddi-dâl, ac yn cynnwys lluniaeth a chinio ond nifer cyfyngedig o lefydd sydd ar gael.

I holi mwy am y digwyddiadau uchod neu i dderbyn ffurflen gais cysylltwch â: Plant yng Nghymru ar Ffôn: 029 2034 2434, Ffacs: 029 2034 3134 neu E-bost: bookings@childreninwales.org.uk

GRANT DAN ARWEINIAD POBL IFANC - GWIRVOL

Mae'r **Grant Dan Arweiniad Pobl Ifanc - Gwirvol** yn cael ei anelu tuag at bobl ifanc rhwng 16 - 25 oed, sydd gyda syniad neu gynllun a fydd yn rhoi budd i'r gymuned leol. Gall hyn fod yn brosiect unigryw, o gael grŵp o bobl ifanc yn trefnu cinio Nadolig ar gyfer yr henoed yn lleol i unigolyn yn trefnu diwrnod o glirio ysbwriel yn ei gymuned leol.

Mae grantiau hyd at £500 ar gael i ariannu'r prosiectau ac mae pob cynllun angen cydymffurfio gyda'r canllawiau sydd wedi cael eu gosod allan, sef:

- RHAID i'r cynllun gael ei arwain gan bobl ifanc
- RHAID i'r cyfle gynnig o leiaf 2 gyfle gwirfoddoli ar gyfer pobl ifanc 16 i 25 oed
- RHAID i'r cynllun fod o fudd i'r gymuned leol

Panel Grantiau Pobl Ifanc

Bydd y ceisiadau i gyd yn cael eu hasesu gan banel o bobl ifanc o Wynedd. Mae'r penderfyniad ganddyn nhw o bwy sydd yn derbyn yr arian. Mae Aelodau'r Panel yn derbyn hyfforddiant llawn ac mae arian ar gyfer eu costau teithio ar gael. Gall unrhyw un rhwng 16 - 25 oed gymryd rhan fel aelod o'r panel.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn bod yn aelod o'r panel, cysylltwch â Mirain Roberts yng Nghanolfan Gwirfoddoli Gwynedd ar 01286 672626 neu e-bost: **mirainroberts@mantellgwynedd.com**

Bydd rownd nesaf o geisiadau am grant yn agor yn Ebrill 2009

GWIRFODDOLWYR IFANC – RYDYM ANGEN EICH MEWNBWN

Mae Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd wedi derbyn £4000 o grant (sef Grant Dan Arweiniad Pobl Ifanc - Gwirvol) i'w rannu i grwpiau ar gyfer creu rhagor o gyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc. Mae hwn yn gyfle gwych i bobl ifanc fod yn rhan o grwp newydd sbon fydd yn penderfynu ar sut i rannu'r arian. Wrth gymryd rhan bydd y bobl ifanc:

- yn cael cyfle i dderbyn hyfforddiant ar sut mae edrych ar geisiadau grant, eu sgorio a'u trafod
- yn dod i 'nabod pobl ifanc eraill
- yn cael ad-daliad costau teithio
- yn gwneud y dewisiadau ar gyfer datblygu mwy o gyfleoedd gwirfoddoli i'r ifanc yng Ngwynedd
- yn gallu cynnwys gwybodaeth ychwanegol ar eu CV
- yn cael hwyl

I fod yn rhan o'r panel rydym yn chwilio am bobl ifanc (16-25 oed) a all roi ymrwymiad o Fawrth 2009 - Mawrth 2010. (bydd tua 4 cyfarfod wedi eu trefnu ar amseroedd a lleoliad cyfleus)

Ydych chi yn berson ifanc neu yn adnabod person ifanc â diddordeb? Beth nesaf ? Gofynnwch iddynt lenwi'r bonyn isod a'i anfon yn ôl cyn 31/03/09 i:

Mantell Gwynedd, RHADBOST NWW4062A Caernarfon, Gwynedd. LL55 1ZZ

Mae gen i ddiddordeb bod yn rhan o Banel Grantiau Pobl Ifanc

Enw: .....

Cyfeiriad: .....

Côd Post :.....Dyddiad Geni:.....

Rhif ffôn:.....Rhif ffôn Symudol: .....

E-bost: .....

CYNLLUN PEILOT PRIFYSGOL PLANT A PHOBL IFANC

Ym mis Chwefror lansiwyd Cynllun Peilot Prifysgol Plant a Phobl Ifanc i ddisgyblion Ysgol Glan y Môr, ym Mhwllheli. Mae'n ffordd i roi cydnabyddiaeth ffurfiol am weithgareddau y mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan ynddynt y tu allan i oriau ysgol. Prif nod y cynllun ydi annog plant a phobl ifanc i gyrraedd eu llawn botensial drwy gymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau.

Os oes gennych ddiddordeb i fod yn rhan o'r cynllun, cysylltwch â ni: prifysgolyplant@gwynedd.gov.uk neu drwy ffonio: 01286 675570.

GWEITHDY ARFER DA CYFRANOGI - 31/03/2009

Gwahoddiad i chi fynychu gweithdy diddorol a fydd yn canolbwyntio yn benodol ar pam a sut i gynnwys pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau.

Prif ffocws y gweithdy:

- Sut i annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn eich gwaith o ddydd i ddydd
- Enghreifftiau o sut mae plant a phobl ifanc eisoes yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau
- Clywed gan blant a phobl ifanc am eu profiadau personol o gymryd rhan
- Cyflwyniad o dystysgrifau 'Clywed'

Manylion y Gweithdy:
Dydd Mawrth, 31/03/2009 yng Nghanolfan Gymuned Talysarn rhwng 12pm - 3pm

I gadarnhau eich lle, cysylltwch â Gwawr Davies ar: **01286 679648** neu **07833 294630** neu ar ebost: **gwawrdavies@gwynedd.gov.uk** erbyn Mawrth 26ain.

CYHOEDDI CYNLLUN I DDARPARU HYFFORDDIANT A CHYNLLUN PRE-VENT I BOBL NAD YDYNT MEWN ADDYSG, CYFLOGAETH NA HYFFORDDIANT

Mae Pre-VENT wedi cael bron i £4 miliwn gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop i fynd i'r afael â phobl ifanc sy'n ei chael hi'n anodd dysgu, ac sydd mewn perygl o adael ysgol heb gymwysterau na sgiliau i ddod o hyd i swydd.

Mae'r prosiect wedi'i dargedu at bobl ifanc rhwng 11-13 mlwydd oed. Hyd y prosiect fydd tair blynedd, a bydd yn darparu pecyn cymorth a hyfforddiant i dros 7,000 o bobl ifanc. Y bobl ifanc hynny fydd y cyntaf i fanteisio ar gynllun cyllido Ewropeaidd wedi'i dargedu at yr ystod oedran hon.

Drwy gyfrwng y prosiect, bydd athrawon, sy'n cydweithio â gweithwyr ieuenctid ac arweinwyr ieuenctid yn y gymuned, yn helpu i adnabod y rhai sydd mewn perygl o gael eu categoreiddio yn NEET (Pobl Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant). O ganlyniad, bydd pecyn cymorth wedi'i deilwra yn cael ei ddarparu, mewn ysgolion ac mewn lleoliadau allgymorth, er mwyn eu helpu i oresgyn unrhyw rwystrau dysgu a'u hannog i barhau â'u haddysg.

Gan ddefnyddio ystod o ddulliau arloesol i feithrin eu hyder, fel technegau i'w hysgogi a chymorth deallusrwydd emosiynol, bydd gan bobl ifanc gyfle i ddangos sut y gallai opsiynau hyfforddiant galwedigaethol ddarparu dewis amgen i ddysgu academaidd traddodiadol. Byddant hefyd yn cael y cyfle i ddatblygu sgiliau a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau deallus am eu haddysg a'u gyrfa.

Am ragor o wybodaeth ynghylch unrhyw eitem a ymddangosir neu os hoffech gynnwys eitem, cysylltwch ag:
Ann Vaughan Jones (Hwylusydd Plant a Phobl Ifanc) ar: **Ffôn - 01286 672626** neu **e-bost - annvaughan@mantellgwynedd.com**
Mantell Gwynedd, 24-26 Stryd Fawr, Caernarfon, Gwynedd LL55 1RH